

Papur Pawb

Pris: 50c

Hydref 2011

Rhif 372



Telynors Ifanc Lwyddiannus – tud.5

tud 3, 4 a 5

Pobl a Phethe

tud 7 a 9

Ysgolion

tud 6 ac 8

Teyrngedau

tud 12

Chwaraeon

Tal-y-bont – pentref gwyrddaf Cymru?



Ym mis Medi eleni cyhoeddwyd fod dinas Sheffield wedi cynhyrchu mwy o drydan solar fesul cartref nag unrhyw ddinas arall yn y Deyrnas Gyfunol. Ar sail y prysurdeb a welwyd dros y misoedd diwethaf o Benrhîw i Maesmeillion, hawdd credu mai Tal-y-bont fyddai ar frig tabl cyffelyb ymhlith pentrefi Cymru. Wedi'r cyfan, does prin wythnos wedi mynd heibio ers dechrau'r gwanwyn pan nad oes un o faniau Cwmni Dulas, Machynlleth, yn y pentref a'u staff wrthi'n brysur yn gosod paneli solar ar do neu mewn gardd.

Does dim amheuaeth mai'r prif gymhelliad dros boblogrwydd y datblygiad i lawer yw'r taliadau hael a gynnigir am gynhyrchu trydan adnewyddol, at ddefnydd y cartref ac i'w fwydo i'r Grid 'Cenedlaethol'. Mae'r cartrefi sy'n rhan o'r cynllun wedi derbyn gwarant y bydd y telerau presennol ar gael iddynt am 25 mlynedd, a diogelir lefel y tariff rhag chwyddiant. Ond i eraill, y cymhelliad yw eu bod yn awyddus i fynd i'r afael ag effeithiau newid hinsawdd mewn ffordd ymarferol.

Ymhlith y rhai cyntaf i fuddsoddi mewn paneli solar eleni roedd Ceri Jones, Pistyll y Llan. Mae'n barod iawn i gyfaddef nad gwaith hawdd oedd ei ddarbwyllo i dalu'r arian mawr i'w gosod. Ond wedi cwta saith mis o gadw golwg beunyddiol ar y mesurydd, mae wedi'i argyhoeddi'n llwyr y bydd y 18 panel yn talu ar ei ganfed iddo. 'Mae

pobl yn tueddu i gredu bod raid wrth lawer iawn mwy o oriau o haul nag a welir yn Nhal-y-bont i gynhyrchu digon o drydan i ad-dalu'r buddsoddiad,' meddai Ceri. 'Ond mae'r flwyddyn gyntaf hon wedi profi mai golau dydd ac nid haul sy'n bwysig, gan fy mod wedi cyrraedd targed y flwyddyn o fewn saith mis ar waetha'r haf siomedig a gawsom. Credaf y byddaf wedi ad-ennill yr arian a fuddsoddais ymhenn rhyw saith mlynedd, ac yna gallaf fwynhau derbyn fy nhrydan am y nesaf peth i ddim am y 18 mlynedd nesaf.'

Er nad yw busnesau'n derbyn yr un telerau hael ag a gynnigir i gartrefi, nid teuluoedd yr ardal yn unig sydd wedi dangos awydd i droi at ynni adnewyddol. Dros yr wythnosau diwethaf mae Cwmni Dulas wedi bod wrthi'n brysur hefyd yn codi dros 100 o baneli ar do warws a phrif adeilad y Lolfa. Eglurodd Garmon Gruffudd, y Rheolwr Gyfarwyddwr, eu bod fel cwmni yn gwneud defnydd eithaf trwm o drydan i redeg y gweisg argraffu a'r peiriannau rhwymo a phlygu. 'Mae toeon y Lolfa'n ddelfrydol ar gyfer paneli solar gan eu bod yn wynebu'r de,' meddai, 'a disgwylir y bydd y system yn cynhyrchu'r rhan fwyaf o'r trydan mae'r cwmni'n ei ddefnyddio.'

Os am ddilyn esiampl y rhai sydd wedi mentro, peidiwch ag oedi'n rhy hir gan fod lle cryf i amau y bydd y telerau a gynnigir yn llai ffafriol yn fuan iawn.

Papur Pawb

Golygydd Cyffredinol:	Gwyn Jenkins Maesgwyn, Tal-y-bont, Ceredigion golygydd@papurpawb.com Cysyllter â golygyddion y mis	(01970) 832560
Tynnu lluniau:		
Tal-y-bont:	GOHEBYDDION LLEOL Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont Aileen Williams, Maesmeillion, Tal-y-bont Eirlys Jones, 91 Maes-y-deri, Tal-y-bont Dilys Morgan, Alltgoch, Tal-y-bont Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch Siân Saunders, Is-y-coed, Tre Taliesin Susan Lewis, Maesgwyn, Tre'r-ddôl Janet Evans, Cefngweiriog, Tre'r-ddôl Wendy Fuller, Pandi, Ffwrnais	832592 832438 832483 832498 832566 832230 832429 (01654) 781260 (01654) 781312
Eglwysfach/Ffwrnais:	CYMDEITHAS PAPUR PAWB Geraint Pugh, 13 Dôl Pistyll, Tal-y-bont Arthur Dafis, Mur Mawr, Tal-y-bont Siân Pugh, 13 Dôl Pistyll, Tal-y-bont Rebecca Williams, Mur Mawr, Tal-y-bont Bledwyn Huws, Henllan, Tal-y-bont Wendy Fuller, Pandi, Ffwrnais Gwenllian Parry-Jones; Lyn Hammonds Enid Gruffudd; Susan Lewis; Gwenllian Parry-Jones	832433 832093 832433 832093 832448 (01654) 781312
Cadeirydd:		
Is-gadeirydd:		
Ysgrifennydd:		
Trysorydd:		
Tanysgriadau:		
Hysbysebion:		
Plygu'r Papur:		
Dosbarthwyr:		

Cyhoeddir gan Gymdeithas Papur Pawb gyda chymorth
Cyngor Celfyddydau Cymru – Bwrdd y Gorllewin, a Bwrdd yr Iaith Gymraeg

Diolch, Kathleen

Gyda'r rhifyn hwn mae Kathleen Richards, Y Bryn, yn ymddeol o fod yn Ohebydd Lleol cydwybodol y papur yn ardal Tal-y-bont. Wrth fwrw golwg dros ôl-rifynnau *Papur Pawb* fe welir iddi fod yn ohebydd 'swyddogol' er 1992, ond nid dyna'r stori i gyd. Er nad oedd ei henw'n ymddangos ar dudalennau'r papur drwy'r 1970au a'r 1980au, dyw hi ddim yn gyfrinach mai Kathleen oedd ffynhonnell wreiddiol llawer iawn o'r hanesion am hynt a helynt trigolion y pentref. Byddai'r papur wedi bod lawer iawn tlotach o'r rhifyn cyntaf un yn Hydref 1974 ymlaen heb ei diwydrwydd diflino. Ni ddylid anghofio chwaith am gymwynas fawr arall a wnaeth i'r papur yn y dyddiau cynnar, sef ei farchnata mor effeithiol ymhlith y cwsmeriaid a alwai yn y Swyddfa Bost. Wrth ddymuno'n dda iddi ar achlysur ei hymddeoliad, gobeithiwn y bydd yn parhau i gadw'i chlustiau a'i llygaid ar agor ar ran y papur am lawer blwyddyn eto.

Croeso i Myfanwy

Yn y rhifyn hwn, ychwanegwyd enw newydd at y rhestr o ohebwy'r lleol y papur, gyda Myfanwy James, Bryn Eglur, Tanygraig, yn ymuno fel gohebydd Tal-y-bont ar ymddeoliad Kathleen Richards. Os oes gennych unrhyw newyddion ar gyfer y papur, bydd Myfanwy'n falch o glywed oddi wrthyh. Diolch i Myfanwy am gytuno i wneud y gwaith, a dymunwn yn dda iawn iddi yn ei swydd newydd!

Cofiwch ymweld â gwefan Papur Pawb

Gwybodaeth am y papur, ei hanes a manylion cysylltu

Hefyd:

- Papur Pawb Sain – i'r rhai sydd â golwg diffygiol
- Tabl amseroedd bysiau yn yr ardal
- Ôl rifynnau'r papur

Noddwyd y wefan hon gan:
Anthony Motors
Volkswagen



papurpawb.com

Dyddiadur

Hydref

- Bethel 2 Miss Beti Griffiths**
Nasareth Uno ym Methel
Rehoboth 2 Parch Judith Morris
Swper Cynhaef Bethel,
Neuadd Goffa 6 pm
Elw at Apêl Trychineb
Dwyrain Affrica
- Merched y Wawr,**
Tal-y-bont
Ymweld â siop y cigydd,
Rhydpennau
- Neuadd Goffa, Tal-y-bont**
Yoga, 7.30 pm
- Sefydliad y Merched**
Cyfarfod Blynyddol a
'Hobiau'
Neuadd Goffa, Tal-y-bont
- Bethel 10 Mr Raymond**
Davies (C)
Nasareth Uno ym Methel
Rehoboth 5 Bugail
- Clwb Nos Wener (Nos**
Sadwrn!)
- Lleuven Steffan, Llew Gwyn**
- Bethel 2 Gweinidog**
Nasareth Uno ym Methel
Rehoboth 10 Tegwyn Jones
- Cyngor Cymuned**
Ceulanamaesmawr
Neuadd Goffa Tal-y-bont,
7.30 pm

Tachwedd

- Sefydliad y Merched,**
Taliesin
Peintio Cardiau Nadolig
Llanfach, Taliesin, 7.30 pm
- Sefydliad y Merched,**
Tal-y-bont
Dathlu Pen-blwydd 95 oed
Neuadd Goffa Tal-y-bont
- Bethel 5 Gweinidog**

Bethel, Tal-y-bont

SWPER CYNHAEAF
Nos Sul 16 Hydref
6 o'r gloch, Neuadd Goffa
Tal-y-bont
Elw at Apêl Trychineb
Dwyrain Affrica
Croeso cynnes i bawb

Plaid Cymru,

Cangen

Tal-y-bont

Nos Fercher, 2 Tachwedd
Trafod Arolwg
Eurfyl ap Gwilym ar
ddyfodol y Blaid
Cyfle i rannu syniadau.
Gwaelod Neuadd Goffa
Tal-y-bont am 7.30 o'r gloch

Nasareth 11.15 Bugail (C)

- Rehoboth 10 John Hughes**
Pwyllgor y Neuadd Goffa
Neuadd Goffa Tal-y-bont,
8 pm
- Cyfarfod y Chwiorydd,**
Rehoboth
Y Prif Lenor Manon Rhys
Rehoboth, Taliesin, 2 pm
- Os Mêts Gweithdy Ceginio**
Festri Horeb, Penrhyn-coch,
7.30 pm
- Gŵyl Lyfrau Morlan,**
Aberystwyth
- Gwasanaeth Sul y Cofio**
10.45 am, Neuadd Goffa
Tal-y-bont

Os am gynnwys manylion am
weithgareddau eich mudiad neu'ch
sefydliad yn dyddiadur y mis, dylech
anfon y manylion llawn at Glenys
Edwards, Cartrefle, Tal-y-bont
(01970 832442) o leiaf ddeng niwrnod
cyn y rhifyn nesaf o Papur Pawb.

Noddir gan
Lywodraeth
Cynulliad Cymru



Cydnabyddir cefnogaeth
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
i'r cyhoeddiad hwn
BWRDD YR IAITH
GYMRAEG • WELSH
LANGUAGE BOARD

Golygyddion y rhifyn hwn oedd
Eleri a Gwilym, gyda Ceri'n dylunio.
Golygyddion mis Tachwedd fydd
Phil a Megan Mai, Gwynionydd,
Tal-y-bont (01970 832384;
gwynionydd@btinternet.com) gyda
Sion Pennant yn dylunio. Y dyddiad
olaf i dderbyn newyddion fydd dydd
Gwener 4 Tachwedd, a bydd y papur
ar werth ar 11 Tachwedd. *Golygyddion*
rhifyn Medi oedd Medi, Llio a Mared,
gydag Elgan yn dylunio. Trwy
amryfusedd, camrifwyd y ddau rifyn
diwethaf; rhif 370 oedd rhifyn
Mehefin a 371 oedd rhifyn Medi.

Sioe Tal-y-bont

CINIO BLYNYDDOL

Gwesty'r Llew Du,
Tal-y-bont
Nos Sadwrn 3 Rhagfyr 2011
Enwau i Dilys Morgan
(01970 832498)
erbyn 15 Tachwedd

Rhaghsbyseb

PARTI CALAN

31 Rhagfyr
o 6.30 pm ymlaen
Neuadd Goffa Tal-y-bont
Gorymdaith o gumpas y pentre
Cyfle i wisgo lan
Cân newydd i groesawu'r
Calan
Bwyd a dauns yn y neuadd

Geni merch fach

Llongyfarchiadau i Non a Gerwyn Jones, Tŷ Ni, Dôl Pistyll, Tal-y-bont, ar enedigaeth merch ar 22 Medi. Mae Glain ac Ela wrth eu bodd gyda Swyn Tirion, eu chwaer fach newydd! Llongyfarchiadau hefyd i Reg ac Eurllys Jones, Eurfan, ar enedigaeth eu hwyres a phob hapusrwydd i'r teulu i gyd.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i D. Philip Davies, Gwynionydd, Talybont, ar gael ei ddyrchafu'n ddiweddar yn Gyfarwyddwr Gwybodaeth a Hyrwyddo gyda Chyngor Llyfrau Cymru. Mae Phil yn aelod o staff y Cyngor ers bron i 24 mlynedd. Dymunwn yn dda iawn iddo yn ei swydd newydd.

Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Goronwy a Tegwen Jones, Glasgoed, a'r teulu, ar farwolaeth chwaer Goronwy'n ddiweddar yn Rugby. Estynnwn gydymdeimlad hefyd â Myfanwy James a'r teulu, Bryn Eglur, Tal-y-bont, ar farwolaeth ei chwaer, Evelyn, yn Llundain.

Newid Aelwyd

Estynnwn groeso cynnes i deulu o Fwlgaria sydd wedi symud i 7 Dôl Pistyll, Tal-y-bont, a phob hapusrwydd i'w mab ifanc Velko sydd bellach yn ddisgybl yn yr ysgol leol. Pob dymuniad da hefyd i Ruslana Johnson ac Alexey sydd wedi symud i fyw yn Caerdocfa, Tal-y-bont.

Pen-blwydd Arbennig

Llongyfarchiadau i Emma O'Brien, Cytringan, Tal-y-bont, a ddathlodd ben-blwydd arbennig yn ddiweddar.

Y Bad Achub

Casglwyd £86.01 yn Nhal-y-bont yn ddiweddar i gefnogi Bad Achub y Borth. Y casglyddion oedd Dr Myrtle Parker, Ger-y-Plas, a Sadie Jenkins ac Eirlys Jones, Maes-y-deri.

Neuadd Goffa Tal-y-bont

FFAIR NADOLIG

Dydd Sadwrn 26 Tachwedd
Manylion yn y rhifyn nesaf

Pobl a Phethe

**Priodas**

Ar 17 Medi, yn Eglwys Sant Hilary, Trefilan, priodwyd Rhydian Evans, mab hynaf Dilwyn a Marion Evans, Tynant, Tal-y-bont a Catherine Eifiona Louise Davies, merch Brinley Davies a'r ddiweddar Heulwen Davies, Penlan Trefilan. Cynhaliwyd y wledd briodas ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan. Bydd Rhydian ac Eifiona'n ymgartrefu yng Nglanaber, Cwm Tynant, Tal-y-bont, a dymunwn bob hapusrwydd iddynt yn eu bywyd newydd.

**Priodas**

Yng Nghapel Bethesda, Yr Wyddgrug, ar 19 Awst, priodwyd Alaw a Hywel Griffiths, sydd wedi ymgartrefu ers tro yn Y Garth, Tal-y-bont. Cynhaliwyd y wledd yn Plas Isaf, Corwen. Pob dymuniad da i'r ddau yn eu bywyd priodasol.

Genedigaeth mab

Llongyfarchiadau i Justine a Jonathan Thomas, Rhosyn Gwyn, Caeau'r Llew Du, Talybont, ar enedigaeth eu mab (Elis Lloyd) yn ddiweddar. Bydd yn siŵr o gael ei ddifetha'n lân gan ei ddwy chwaer fawr, Lowri ac Ela. Pob dymuniad da i'r teulu.

Lwc Dda

Pob lwc i Michelle James, Maes Clettwr, Tre'r-ddôl yn ei swydd newydd yn Ysgol Tal-y-bont, a llongyfarchiadau i'w thad Alwyn a oedd yn dathlu pen blwydd arbennig yn ystod yr haf.

Gwellhad buan

Dymunwn wellhad buan i Steven Evans, Cefngweiriog, Tre'r-ddôl, ar ôl ei ddamwain a'r cyfnod a dreuliodd yn Ysbyty Gobowen, a hefyd i Gareth Jones, Maes Clettwr, sydd wedi bod yn yr ysbyty. Mae Graham Briddon, Penrhyn, yn cael triniaeth ar hyn o bryd a dymunwn yn dda iawn iddo yntau. Treuliodd Dai Owen Evans, Maes-y-deri, gyfnod yn yr ysbyty'n ddiweddar, a chroesawn ef yn ôl adref.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Ruth Dingle, Hyddgen, Tre Taliesin, sydd wedi cael lle i astudio mewn coleg cerdd yn Llundain.

Genedigaeth mab

Llongyfarchiadau i David a Lisa Byrne, 6 Maes Clettwr, Tre'r-ddôl, ar enedigaeth eu mab, Oliver; brawd bach i Max a Connor ac ŵyr i Pam Byrne, Tre'r-ddôl.

'Mwy neu Lai?'

Llongyfarchiadau i Glenys Evans, Llwynysguborwen, Tal-y-bont, ar ennill £110 yn y gystadleuaeth 'Mwy neu Lai?' ar raglen deledu *Wedi 3* bnawn Gwener 7 Hydref.

Cydymdeimlad

Trist iawn yw cofnodi i Peter Chatfield ('dyn y gynffon ferlen'), Valhalla, Tre Taliesin, farw yng Nghartref Tregerddan yn ddiweddar, yn 84 oed. Cydymdeimlwn hefyd â Vera Lewis, 6 Pencae, Tre Taliesin, ar farwolaeth ei brawd, Wil.



Cam ymlaen!

Dymuniadau gorau i Shân Jones, Tyrbanc, Bont-goch, cyd-berchennog Gofal Traed Aber, gyda'i menter newydd. Yn ddiweddar, agorodd Shân siop sgidie newydd – dan yr enw Gwdihw – yn Ffordd Portland, Aberystwyth. Yn y llun gwelir Shân o flaen y siop newydd. Cofiwch alw heibio i'w chefnogi!



Bore Coffi Llwyddiannus

Cynhaliwyd Bore Coffi ar ran Eglwys Dewi Sant, Tal-y-bont, fore Sadwrn, 1 Hydref. Daeth amryw ynghyd i gael paned a chlonc ac roedd yn gyfle i sawl un gael cwrdd â'r Parch. Peter Jones, Offeiriad mewn Gofal, a'i deulu. Hoffai'r trefnwyr ddiolch i bawb o Dal-y-bont a ddaeth i gefnogi'r achlysur, ac hefyd i aelodau o Eglwysi Llandre a Llangorwen. Diolch hefyd i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw ffordd i wneud yr achlysur yn un llwyddiannus – codwyd y swm anrhydeddus o £400.



Mewn cwmni da!

Ann Jenkins, Llety'r Bugail, Tal-y-bont, yng nghwmni Adam Henson, cyflwynydd y rhaglen *Countryfile*, yn Sioe Llanelwedd.

Priodasau



Llongyfarchiadau a dymuniadau da i Grant Mayhew a Julie Ellis a briodwyd ar 25 Mehefin, gyda'r wledde yng Ngwesty'r Marine, Aberystwyth. Y morynion priodas oedd Vicky, chwaer Julie; Emma Jones, ffrind, ac Ellie yn forwyn y blodau. Y pedwar gwas oedd eu meibion, Josh a Scott, a Hefin Williams a Gary Foulkes.



Dydd Sul 31 Gorffennaf priodwyd Elizabeth, unig ferch Stuart a Joy Chadbourne, Huanfa, Staylitt, Tal-y-bont, a Martin Mander, mab hynaf Paul a Ruby Mander, Heol y Wig, Aberystwyth. Ar ddiwrnod braf o haf, cafwyd cyfle i fwynhau lleoliad hyfryd gwesty yng Nghaerfaddon ar gyfer y dathliadau. Mae Elizabeth bellach yn gweithio yn Ysbyty Caerfaddon fel Technegydd Fferylliaeth, a dymunwn yn dda iddi hi a Martin yn eu cartref newydd yn y ddinas.



Llongyfarchiadau a phob hapusrwydd i Catherine Lewis Jones ac Andrew Twiddy Murray, 3 Maes-y-deri, Tal-y-bont, a briodwyd yng Ngwesty'r Marine, Aberystwyth, ar 24 Medi.

Pobl a Phethe

Diolch

Dymuna Rhydian ac Eifiona Evans, Glanaber, Tal-y-bont, ddiolch o galon am y llu o gardiau ac anrhegion a'r dymuniadau gorau a dderbyniwyd ar achlysur eu priodas ar 17 Medi 2011.

O Gaerdydd i Baris ar gefn beic

Pan dderbyniodd Rhian Jones, Eurfan, Tal-y-bont, ebost oddi wrth Reolwr Codi Arian Shelter Cymru yn gofyn a fyddai ganddi ddiddordeb mewn seiclo o Gaerdydd i Baris fel rhan o ddatiliadau'r elusen yn 30 oed yng Nghymru, meddai Rhian: 'Doedd dim angen pendroni'n rhy hir, ac ar fore llwyd ac oer ar ddiwedd Medi fe gychwynnodd 15 ohonom ar ein taith rhwng prif ddinasoedd Cymru a Ffrainc. Roeddem yn griw cymysg iawn o bobl, ond buan y daethom oll yn ffrindiau da, gan gydweithio i sicrhau ein bod yn seiclo fel tîm ac yn cefnogi'n gilydd. Wedi croesi'r Sianel, cawsom dywydd a golygfeydd godidog, a hyn i gyd yn ychwanegu at y profiad a'r teimlad o undod o fewn y tîm.

'Edrychai pawb ymlaen yn eiddgar at gyrraedd Paris, ac ar noson fwyn fe gyrhaeddodd pawb ar risiau'r Trocadero. O fewn eiliadau, goleuwyd Tŵr Eiffel ac roedd pawb yn gorfoleddu yn ein camp o gyflawni 335 milltir ar feic dros bedwar diwrnod.

'Cafwyd cyfle i drafod pwysigrwydd y daith i waith Shelter Cymru, sydd wedi gweithio'n ddiflino am 30 mlynedd i wella safonau byw unigolion a theuluoedd. 'Os hoffech gefnogi gwaith Shelter, gallwch wneud hynny trwy ymweld â: <http://uk.virginmoneygiving.com/RhianShelterCymru>

Y Fframdy

Mae'r gweithdy yn darparu gwasanaeth fframio dychmygus o'r safon uchaf. Cewch ddewis o amrediad eang o siapiau gosod a fframiau. Bydd y fframdy'n gallu darparu ar gyfer unrhyw anghenion unigol.

Y Fframdy, Glanceri, Y Borth, Ceredigion SY24 5JA
Ffôn: 01970 871042
Symudol: 07773 846659

Cydymdeimlad

Ar 5 Hydref, bu farw Mrs Vivienne Hopkins, Melindwr, Glandyfi. Bu'n byw ac yn ffermio yno am dros hanner canrif gyda'i diweddar wr, Byron. Estynnwn ein cydymdeimlad ag Alison, Robbie a Charles a'u teuluoedd.

Hanesydd Pêl-droed o fri

Llongyfarchiadau i Richard Huws, Pant-gwyn, Bont-goch ar gyhoeddi ei drydydd cyfrol am bêl-droed mewn tair blynedd. Mae'r teitl diweddaraf, *The footballers of Borth & Ynys-las, 1873-1950*, yn dod yn dynn ar sawl hanes Clwb Pêl-droed Trefeurig a gyhoeddwyd y llynedd. Mae'r gyfrol yn olrhain hynt a helynt Borth United a ymunodd â Chynghrair Aberystwyth a'r Cylch yn 1934 ac Ynyslas Gunners, sef Artilleri Brenhinol y Fyddin Dirigaethol a chwaraeodd am ddau dymor yng nghynghrair Aberystwyth cyn yr Ail Ryfel Byd. Mae'r llyfryn ar werth mewn siopau lleol, pris £5.00.

Cartref newydd

Pob dymuniad da i Mr a Mrs Billy Swanson, sydd wedi symud o Glandyfi i Cefn Sidan, Ffwrnais yn ddiweddar. Gobeithio y byddant yn hapus iawn yn eu cartref newydd. Braf hefyd i weld Billy gartref ar ôl treulio cyfnod hir yn Ysbyty Bronglais.

Afiaith
Gwasanaeth Cyfieithu

Profiadol • Proffesiynol
Prydlon • Personol

Martin Davis
Is-y-coed, Tre Taliesin, MACHYNLLETH
Pwys 5Y20 8JG Cymru
Ffôn/Ffacs +44 (0)1970 832230 afiaith@aol.com

Dofednod Cwmtynant



Dofednod ffrës o fferm leol.
Archebwch wydd, twrci, hwyaden neu gwy iâr erbyn y Nadolig Cysylltwch â Dilwyn, Marion, Rhydian neu Elgan
Tynant, Tal-y-bont 01970 832 257

Telynores Ifanc Lwyddiannus

Llongyfarchiadau i Catrin Huws, Henllan, Tal-y-bont, ar gael ei dewis yn un o ddwy o ddisgyblion lleol i dderbyn Dosbarth Meistr awr o hyd ar y delyn ym mis Medi gan Catrin Finch, y telynores adnabyddus. Dewiswyd y ddwy yn wreiddiol adeg gwyl *Musicfest*, pan oedd Catrin Finch yn cynnal cyngerdd yn Aberystwyth. Pob dymuniad da i Catrin – byddwn yn sicr o glywed llawer mwy amdani yn y dyfodol fel telynores o fri.

Cydymdeimlad

Yng Nghartref Abermad, Llanilar, ar 13 Awst, bu farw Leonard Warren, gynt o Ynys Einion, Eglwysfach, yn 101 oed. Cafodd ei fagu yn Croydon, a bu'n 'Sargeant Major' gyda'r *44th Indian Airborne Division* yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Ar ôl ymddeol, daeth i fyw ar ei ferch Lynda a'i theulu. Cynhaliwyd yr angladd ar 17 Awst yn Eglwys St Mihangel, Eglwysfach. Estynnwn ein cydymdeimlad â Lynda, Barry a Marc yn eu colled.

Priodas Arian

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Mair a David Nutting, Tŷ Hen Henllys, Tal-y-bont oedd yn dathlu eu priodas arian ddydd Mawrth 4 Hydref.

Dymuniadau gorau

Dymuniadau gorau i Colin, Glyncoed, Tre Taliesin, a fu'n wael ei iechyd dros yr haf. Rydyn ni'n falch o glywed dy fod yn dechrau gwella, Colin.

Sefydliad y Merched, Eglwysfach

Dechreuodd tymor yr Hydref ar 4 Medi gyda thaith i'r Wyl Fwyd yn Glansevern, Berriew. Cafodd yr aelodau amser bendigedig yn yr haul yn blasu bwydydd gwahanol oddi ar y stondinau, a chyfle hefyd i weld y gerddi hyfryd. Ar 3 Hydref daeth nifer fawr o'r aelodau i glywed Cheri Kelly yn siarad am Lywodraeth Cymru. Esboniodd bethau'n glir a syml gyda chyflwyniad 'power point' ac aeth pawb oddi yno wedi dysgu rhywbeth!

Siop y Pethe
Aberystwyth

Llyfrau a Recordiau
(01970) 617120

Cydymdeimlad

Bu Geraint Evans, Llawcwmbach, Bont-goch, farw ar 6 Medi, ac estynnwn ein cydymdeimlad dyfnaf â'i frodyr, Gareth a Ken, ei frawd-yng-nghyfraith Dai Page, Yr Amwythig, a'r teulu i gyd yn eu colled. Cynhaliwyd ei wasanaeth angladdol yng Nghapel Rehoboth, Taliesin ac Amlogsgfa Aberystwyth ar 16 Medi dan ofal ei weinidog, y Parch. Wyn Morris, a chyhoeddir rhan o'i ddyrnedd hyfryd ef yn y rhifyn hwn.

Gwasanaeth Glanhau

Ydych chi'n byw yn Nhal-y-bont?
Yn chwilio am rywun i lanhau'r tŷ?
Ffoniwch 01970 832643
i wneud ymholiadau.

Bistro Gannets

Bwyd a Gwin Da
7 St James Square, Aberystwyth
617164
Ar agor Llun i Sadwrn
12-2 a 6-9.30

Rhian

trin gwallt gartref

25 mlynedd o brofiad
gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy
ffôn 832 612
07835 525 553

Mathew Davies Plymio a Gwresogi

07964 124 457 ar gael 24 awr
hefyd gwaith teilio
Nwy • Olew • Tanwydd Solet • Solar

Teyrnged

JOHN ROWLAND DAVIES

Wedi brwydr ddewr, aeth gwaith a gorffwys yn un yn hanes John Dolclettwr, Tad a Thaid Coch annwyl iawn i'w deulu. Bu'n fregus ei iechyd ers blynyddoedd, ond cafodd ei daro'n sâl yn sydyn yn mis Gorffennaf. Cafodd lawdriniaeth a bu yn Ysbyty Bronglais am chwech wythnos. Gadawodd y fuchedd hon yn dawel fore Sadwrn, 3 Medi, yn Ysbyty Gymunedol Bryn Beryl, Pwllheli.

Ganwyd John yn Ffatri, Llanbrynmair ar 15 Gorffennaf 1924, yr hynaf o chwech o blant i Rowland a Hannah Davies. Pan oedd yn fabi symudodd y teulu i fyw i Fferm Brynclgyo, Penegoes. Mynychodd Ysgol Gynradd Penegoes, lle gorfodwyd iddo ddysgu sgrifennu â'i law dde, er mai llaw chwith ydoedd yn naturiol. Yna aeth ymlaen i Ysgol Uwchradd Machynlleth.

Wedi gadael yr ysgol aeth adref i amaethu. Bu'n aelod o'r 'Home Guard' yn ystod y rhyfel, a braf oedd gwrando ar ei ddawn difyr o adrodd hanesion o'r dyddiau hynny. Un stori oedd bod si ar led bod 'parachute' yr Almaenwyr wedi glanio ar fferm gyfagos. Y fo a'i frawd yn gorfod mynd yn slei bach i archwilio, a chanfod nid 'parachute' o gwbl ond llwyth mawr o galch yng nghanol cae a chriw o wartheg duon yn synhwyro o'i gwmpas!

Cwrddodd â Gwen ei wraig yn Sioe y Trallwng, y ddau wedi trefnu gwahanol dripiu ar fws i'r sioe. Wedi priodi â Gwen yn 1952, symudodd o fwynder Maldwyn i ymgyrtrefu ar aelwyd Dolclettwr a chyd-ffermio â'i dad-yng-nghyfraith, Richard J. Griffiths a'i frawd-yng-nghyfraith, Jim. Magwyd dau o blant, Rol a Kit, ar aelwyd hapus, fywiog a chroesawgar ar drws wastad yn agored i bawb alw i mewn.

Un o'r pleserau mwyaf a gafodd oedd magu ei wyrion, a bu'r tri ohonynt yn anrhydeddus o ffeind wrtho drwy gydol ei anhwylder. Dyn y bobol oedd John, wrth ei fodd gyda llond tŷ, yn enwedig plant. Roeddent yn tynnu ato a'i ddilyn fel lli'r afon.

Wedi iddo wella ar ôl llawdriniaeth ar ei gefn yn Llundain yn 1960, aeth ati i hwyluso gwaith y fferm drwy osod parlwr i odro'r fuches Holstein a gadwai, ynghyd â diadell o ddefaid Suffolk a Dorset i gynhyrchu wyn cynnar at y Pasg. Cafodd ei enw yn y *Guinness Book of Records* am fod yn berchennog y ddafad hynaf yn y byd – dafad Dorset, fu farw trwy ddamwain yn 29 oed ar ôl wyne 40 o weithiau!

Bu'n aelod sylfaenol o Gymdeithas Tir Glas Gogledd Ceredigion ac yn aelod ffyddlon, a chadeirydd NFU y sir. Rhoddodd wasanaeth diflino i Gyngor Cymdeithas Llangynfelyn am hanner canrif, a chyflwynwyd iddo ffôn fugail hardd ar ei ymdeoliad.

Yn nechrau'r 1960au, gofynnwyd iddo gan Mr Hopkins, Melindwr, Eglwysfach, ddilyn y diweddar Mr. T. J. Pugh, Taliesin ar Gyngor Ardal Wledig Aberystwyth ac yn ddiweddarach ar Gyngor Sir Ceredigion, lle cynrychiolodd ei fro am dros 30 mlynedd.

Bu'n Gadeirydd y Sir yn 1984 ac ymddiddorai fwyaf ym meysydd cyllid a chynllunio. Daeth i adnabod pob twll a chornel o Geredigion

wrth ymweld â safleoedd cynllunio pan oedd yn gadeirydd y pwyllgor hwnnw. Braint iddo oedd cael cynrychioli ei ardal, drwy drin pawb yr un fath yn ei ffordd dawel, teg a diymhongar. Cofiaf fel y canai'r ffôn wrth ei ochr ar ffwrdd y gegin – byddai pob amser yn rhoi ei etholwyr yn gyntaf, hyd yn oed amser cinio dydd Sul!

Ymddiddorai ym myd natur.

Sylwai ar yr effaith a gâi ar y tymhorau wrth iddo grwydro'i fro. Roedd byd natur Cors Fochno, neu'r figyn fel y gelwir hi'n lleol, yn agos iawn at ei galon. Wedi iddo golli Gwen, bron i 7 mlynedd yn ôl, byddai'n rhannu ei amser rhwng Dolclettwr a Llanfynydd, Pwllheli. Daeth i adnabod pobl y fro honno drwy gael sgwrs gyda hwn a'r llall wrth iddo fynd am dro.

Eglwyswr i'r carn oedd John. Yn nyddiau ei anterth bu'n ddarlennwr lleig ac yn cynnal gwasanaethau ar y Sul. Bu'n warden ar Eglwys St. Cynfelyn ers 1959. Ei dristwch mwyaf oedd gweld dyddiau'r hen eglwys hynafol hon yn dod i ben a'r Corff Eglwysig yn ddifater a didostur. Darllenodd ei Feibl ddwywaith. Ei hoff lith oedd 'Amser', Pennod 3 o Lyfr y Pregethwr, sy'n cynnwys y geiriau 'amser i eni, ac amser i farw'.

Roedd y dyrfa enfawr a gasglodd o bell ac agos ar ddydd ei angladd yn Eglwys Llanfihangel Genau'r Glyn, lle y priododd 59 mlynedd yn ôl, yn dyst o boblogrwydd JR, cyn ei roddi i orffwys gyda'i gymar Gwen ym mynwent Llangynfelyn. Fel y dywedodd ffrind ac amaethwr amdano, 'Carreg filltir o ddyn'.

K G E

Dymuna Roland, Kit a'r teulu oll ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad, rhoddion a charedigrwydd a dderbyniwyd ganddynt yn ystod eu profedigaeth o golli John Rowland Davies, Dolclettwr, Trêr-ddôl, tad a thaid annwyl iawn.



 GLANYRAFON	Teiars Aliniad Olwyn Ecsôsts Batris Brêcs Hongiad Bar tynnu Gwasanaeth MOT	 Rhodfa'r Parc
Am y pris gorau a dewis eang o deiars cysylltwch â ni drwy'r wefan neu galwch heibio am gyngor. Am docyn disgownt ar gyfer alinio eich car ewch i'n gwefan ALIGNMYCAR.CO.UK Archebwch eich MOT nesaf ar ein gwefan.		
HUWLEWISTYRES.COM Ffôn: 01970 636774		

argraffu da am bris da



y/lolfa holwch Paul am bris ar **paul@yolf.com**
 01970 832 304 **www.yolf.com**



Storfa Canolbarth Cymru

STORFA DODREFN	STORFA FUSNES ARCHIFAU
STORFA I FYFYRWYR	PACEDU

**DIOGELWCH BT REDCARE 24 AWR • CCTV
 WEDI GYNHESU • CIWBICLAU £10 YR WYTHNOS**

www.midwalesstorage.co.uk
 Heol y Doll, Machynlleth, SY20 8BQ
Ffôn: 01654 703592

Ysgol Tal-y-Bont



Teuliodd disgyblion Blwyddyn 5 a 6 dridiau yng Nglan-llyn yng nghwmni disgyblion Llangynfelyn. Cafwyd digonedd o gyfleoedd i ddringo, gwlychu a dawnsio!

Cafodd disgyblion Cyfnod Allweddol 2 brynhawn difyr ym Mhenweddig yn dysgu am draddodiadau Japan. Cafwyd cyfle i greu a blasu sushi, gwisgo gwisgoedd traddodiadol, ysgrifennu Siapaneaidd ac origami.

Ar ddiwedd tymor yr haf, bu'r dagrau'n llifo wrth ffarwelio â Miss Mared a fu'n cynorthwyo yn nosbarth Miss Rhys am flwyddyn. Diolch iddi am ei holl waith a phob lwc iddi gyda'r ymarfer dysgu yng Nghaerdydd.

Llongyfarchiadau i Dylan Wyn Benjamin, Gwydion James a Tomos Jenkins ar gymryd rhan yn Aquathlon Cenedlaethol yr Urdd. Dyma'r tro cyntaf i'r tri i gystadlu a chwblhaodd pob un ohonynt y ras gydag amser arbennig.

Cafodd disgyblion Blwyddyn 3 a 4 hwyl wrth gystadlu yn nhrwnment criced yr Urdd yn Llandysul, a phawb yn chwarae'n arbennig!

Cyflwyno Siec

Daeth Llinos Jones o fanc Barclays i'r ysgol er mwyn cyflwyno siec i'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon. Codwyd swm sylweddol yn ystod noson barbeci a chyngerdd blwyddyn 6 yr ysgol, ac ychwanegwyd at y cyfanswm yn sgil cynllun punt-am-bunt y banc. Diolch yn fawr!



Gwisg Ysgol

Wedi trafod helaeth rhwng llywodraethwyr, staff, plant a rhieni'r ysgol, penderfynwyd ychwanegu at ein gwisg ysgol eleni. Yn ogystal â'r siwperi coch, gall y plant (â'r staff) wisgo siwperi o unrhyw liw sy'n cynnwys logo'r ysgol. Mae'r ymateb wedi bod yn bositif ac fel y gwelwch mae'r plant yn edrych yn smart dros ben!



Hanes Rhyw Ffordd

Hanner can mlynedd union yn ôl, ar 9 Hydref 1961, gorfodwyd y brodyr John a Jim James i adael ffermdy Nant-y-moch am y tro olaf cyn dymchwel eu cartref a Chapel Blaenrheidol i foddîr cwm fel rhan o Gynllun Trydan Rheidol.



Un sydd â chof plentyn am gwrrd â'r ddau yw Aeron Williams, Maesmeillion. 'Rwy'n cofio'n dda mynd i bysgota gyda'm hewythr, Herbert Ellis, ar bwys ffermdy Nant-y-moch,' meddai, 'a chael croeso mawr gan y ddau frawd.' Mae hefyd yn cofio'r daith o dros 18 milltir yn Austin 7 ei ewythr drwy Gapel Bangor a Phonterwyd i gyrraedd yno. Yng nghanol y 1950au doedd dim modd teithio mewn cerbyd bob cam o Dal-y-bont i Nant-y-moch heibio Cwm Ceulan gan nad â'r 'ffordd' gam ymhellach na gweithfeydd mwyn Bryn-yr-Afr a Chamdwr-mawr.

Pan dorrodd y newyddion am y bwriad i foddîr cwm, talwyd cryn sylw i dynged y ddau frawd ac wedi hynny i natur uchelgeisiol y Cynllun i gynhyrchu trydan. Ond am un o'i sgil effeithiau – sef agor ffordd newydd fyddai'n cysylltu Tal-y-bont a Phonterwyd – ni chafwyd fawr o gyffro. Ac eto, erbyn diwedd y 1960au, roedd y ffordd hon yn cael ei chrybwyll mewn nifer o deithlyfrau moduro poblogaidd.

Wrth chwilotâ'r hanes, roeddwn yn disgwyl canfod bod codîr ffordd yn rhan annatod o'r Cynllun Trydan. Ond ymddengys mai ar hap, a chyda phinsiad bach o flacmel, yn hytrach na chynllunio strategol, y mae esbonio ei bodolaeth. Dyma o leiaf yw'r unig gasgliad y gellir dod iddo o ddarlenn cofnod Pwyllgor Prifffyrdd y Cyngor Sir, mis Mawrth 1961, lle cyfeirir at drafodaethau rhwng y Cyngor Sir, y Weinyddiaeth Amaeth a'r Comisiwn Coedwigaeth. Y pwnc dan sylw oedd gwella'r ffordd o Gapel Ceulan i Fwlchgarreg dan y Ddeddf Gwella Ffyrdd Amaethyddol. Yn ystod y cyfarfod cytunodd y Comisiwn Coedwigaeth i gyfrannu £4,000 at y gwelliannau (sef hanner y gost) ar yr amod bod y Cyngor Sir yn mabwysiadu gweddill y ffordd o Fwlchgarreg i Gapel Tabor. Roedd hyn, cofier, pan oedd y gwaith o godi cronfa Nant-y-moch ar fin cael ei gwblhau.

Wrth gwrs, roedd swyddogion y sefydliadau hyn yn ddigon hirben i wybod bod Cwmni McAlpine wedi bod wrthi er 1956 yn cloddio a hollti cerrig o chwael yr Hafan i godi rhwydwaith o ffyrdd llydan i hwyluso'r gwaith o symud peiriannau trymion, defnyddiau adeiladu a gweithwyr. Mater gweddol hawdd wedyn oedd cysylltu'r ffordd o Dal-y-bont i Gapel Tabor â'r ffyrdd newydd a godwyd gan McAlpine i Bonterwyd. Yr unig rwystr fyddai heibio'r argae ei hun, ond cafodd hyn ei ddatrwyd ym mis Mawrth 1963 pan gyflwynwyd cais cynllunio gan y Bwrdd Trydan i godi ffordd i gludo cerbydau ar ben argae Nant-y-moch a thrwy hynny gwblhau'r cysylltiad.

Ond nid yw'r hanes mor daclus â hynny chwaith, oherwydd ceir cyfeiriad yng nghofnodion Cyngor Ceulanamaesmawr, Awst 1959, eu bod am gefnogi awgrym y Cyngor Sir i fabwysiadu'r ffordd 'o Gwm Ceulan i Gapel Tabor fel y byddo'n ffordd weddol dda o Dalybont i Bonterwyd dros y mynydd'. Tybed oes unrhyw un o ddarlennwyr *Papur Pawb* yn gwybod pwy oedd y person cyntaf i awgrymu agor ffordd newydd rhwng y ddau bentref?

O.N. Diolch i Evan Jenkins, Carregcadwgan, am rannu ei brofiadau o deithio ar hyd yr hen ffordd i Camdwr-mawr heibio Capel Tabor cyn boddi'r cwm, ac i John Evans, Bryn Eleri, am y llun o'r gwaith malu cerrig pan oedd Chwael yr Hafan yn ei hanterth yn 1960.

Gwilym Huws

GAREJ DAVMOR

M.O.T., Gwasanaeth, Batris a Theiars

Gellir llogi car, fan neu fws mini i'w gyrru eich hun

www.davmorgarage.co.uk
Ffôn: 01970 832278

Teyrngedau

GERAINT JAMES EVANS

Ganwyd Geraint ar 16 Rhagfyr 1930, yn ail fab i Richard a Margreta Evans, Llawrcwmbach, Bont-goch. Roedd ganddo ddau frawd, Gareth a Kenneth ac un chwaer, Ceinwen, a fu farw y llynedd. Yn ôl Gareth, roedd gan y plant le ardderchog i chwarae ar ddarn o dir glas rhwng y tŷ a'r tai allan. Yn y fan hon y gwasgerir llwch Geraint.

Aeth Geraint i Ysgol Elerch yn Bont-goch, rhyw ddwy filltir o Lawrcwmbach, gan adael yn 14 oed i gynorthwyo'i dad adre ar y fferm. Roedd y gwaith yn cynnwys cneifio defaid gyda gwellai, ac fe ddaeth Geraint yn greffwr o uchel radd ac ennill amryw o wobrau wrth gystadlu mewn sioeau. Roedd ganddo ddiddordeb mawr ym mart Tal-y-bont, a byddai'n helpu ei dad i fynd â defaid a gwartheg yno i'w gwerthu rhwng mis Awst a'r Nadolig – taith o chwe milltir ar droed.

Dyn tawel oedd Geraint, yn mwynhau gêm o ddrafft ac yn anodd i'w guro, a'r un fath hefyd yn yr Yrfa Chwist. Roedd yn werinwr mawr, ac arferion cefn gwlad yn golygu llawer iddo. Fel pawb arall fe welodd newid mawr yn y dull o ffermio, a hynny ddim bob amser er gwell.

Bu Geraint yn byw ac yn gweithio yn Llawrcwmbach tan fis Hydref 2006 ond yna bu'n rhaid iddo dreulio cyfnod yn Ysbyty Bronglais. Sylweddolai bryd hynny na fyddai'n dychwelyd i'w gartref fyth eto. Am y tair blynedd nesaf cafodd gartref gyda Gareth yn Sŵn y Ffrwd nes iddo fynd i Gartref Tregerddan, lle treuliodd ddwy flynedd olaf ei fywyd. Roedd yn hapus dros ben yno, yn canmol y bwyd a'r gofalwyr, ac edrychai ymlaen at y gwasanaeth a gynhelid yn y cartref bob prynhawn Sul. Roedd ganddo orchwyl pleserus ar ddiwedd yr oedfa, sef codi ar ei draed i ddiolch i'r gennad. Byddai wrth ei fodd yn gwneud hynny. Ac roedd pob gair yn ei le.

Parch. Wyn Morris

DR GWYNEDD PENRHYN JONES

Ar ôl gwaeldd hir, bu Dr Gwynedd Penrhyn Jones, Garreg-lwyd, Tal-y-bont, farw yng Nghaerdydd ddydd Sul 27 Awst. Ganed ef ym Methesda yn 1931, yn frawd i Meirion, a laddwyd ar ddiwedd yr Ail Ryfel Byd, a Glyn, a oedd yn Ffisigwr Yngynghorol i'r Henoed ym Mangor, ac yn awdur a llenor adnabyddus.

Addysgwyd Gwyn yn Ysgol y Sir, Bethesda, ac aeth i Brifysgol Bangor i astudio Saesneg, ond ar ôl blwyddyn symudodd i Lerpwl i ddilyn cwrs Meddygaeth, gan raddio fel meddyg yn 1956. Arbenigodd mewn Radioleg, ac yn 1963 enillodd Gymrodoriaeth i fynd i weithio yn Cleveland, Ohio. Dychwelodd i Gymru yn 1965 i gymryd swydd ymgynghorol yn ei faes ei hun yn Ysbyty Bronglais. Bu yno hyd 1978 pan aeth i Kuwait i sefydlu uned Radioleg newydd, a daeth yn ôl i Gymru yn 1985 i adran feddygol y Swyddfa Gymreig, Caerdydd, lle arhosodd hyd ei ymdeoliad yn 1991.

Priododd Gwyn â Mona ym Mhwlheli yn 1957, a ganed tri o blant iddynt – Nia, Hugh a John – a bellach mae yna chwech o wyrion. Symudodd y ddau i Garreg-lwyd, Tal-y-bont, gan ymgyrtre'u'n hapus yn ein plith. Byddai'r ddau'n mwynhau sgwrs a thrafod y 'Pethe' a chymdeithasu'n aml yn y Llew Gwyn a'r Llew Du. Roedd Gwyn yn aelod brwd o Bwyllgor y Neuadd Goffa, a bu'n gadeirydd am dair blynedd. Roedd y ddau'n weithgar iawn gyda'r Cyngor ar Bopeth (CAB) a Chartref Abbeyfield yn Aberystwyth, gan roi oriau lawer o'u hamser yn gweithio'n wirfoddol.

Cefais y faint o adnabod Gwyn am dros hanner can mlynedd, a chroesodd llwybrau ein bywydau'n aml; roeddem hyd yn oed wedi priodi ar yr un dyddiad, a chawsom rannu sawl dathliad. Bu Gwyn a Mona'n groesawgar a charedig iawn wrthym pan ddois i weithio yn Ysbyty Bronglais yn 1969. Roedd Gwyn a minnau'n aelodau o Glwb Cinio Aberystwyth, lle caem gyfle i gwrdd yn rheolaidd i sgwrsio a chofio'r amser a fu.

Cynhaliwyd y gwasanaeth angladdol yn Eglwys y Drindod Sanctaidd, Aberystwyth, ddydd Gwener 9 Medi, dan ofal y Parch. Ian Girling, ac wedyn yn yr Amlogfa. Bydd colled fawr ar ôl Gwyn, a chydymdeimlwn yn ddidwyl â Mona a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth a'u hiraeth.

Gareth Hughes

JOAN MARY JONES

Gyda thristwch y cofnodwn farwolaeth Mrs Joan Jones, gynt o Tŷ Mawr, Eglwysfach, ar 25 Medi. Ganed hi yn Llandeilo yn 1917, ond treuliodd y rhan fwyaf o'i phlentynod yn Llambod, lle roedd ei thad yn rheolwr banc. Bu'n byw yng Nghraig y Deryn, Eglwysfach, rhwng 1961 a 1971 gan symud i Tŷ Mawr yn dilyn marwolaeth ei gŵr yn 1970. Roedd hi'n un o bileri egniol y gymuned, yn enwedig gyda Sefydliad y Merched, lle roedd yn Llywydd, ac fel Warden yr eglwys leol. Byddai'n aml yn trefnu digwyddiadau codi arian, megis gwyliau blodau ac ati, ac yn agor ei chartref i gynnal bore coffi neu arddwest i godi arian ar gyfer elusennau lleol. Bu Joan yn aelod poblogaidd o staff cwmni Antony Sheppard, Machynlleth, ac yn gweithio hefyd i'r RSPB yn Ynyshir. Roedd hiraeth ar ei hól yn lleol pan fu raid iddi symud i gartref preswyl, a bu farw yn Hafan y Waun, Aberystwyth. Cynhaliwyd yr angladd yn Eglwys St Mihangel, Eglwysfach, ar 7 Hydref, a chladdwyd hi gyda'i diweddar ŵr, Trevor. Estynnwn ein cydymdeimlad â Sian a Ruth a'u teuluoedd yn eu colled.

Wendy Fuller

DILYS HUGHES

Ar 5 Medi bu farw Mrs Dilys Hughes, Llys Awel, Tal-y-bont, yn 87 oed. Ganed hi yn Nolblodau, Llanafan, yn ail ferch i John David a Mary Jones, ac yno y treuliodd flynyddoedd cyntaf ei bywyd gan fynychu Ysgol Gynradd Llanafan ac Ysgol Uwchradd Tregaron. Bu'n athrawes yn ysgolion Bwlchllan, Llanilar a Llanfihangel y Creuddyn cyn gadael i briodi Gareth, bachgen o Dal-y-bont, a symud i'r pentref i fyw. Ganwyd Linda eu merch hynaf yn 1954 a Margaret y flwyddyn ganlynol.

Roedd Dilys a Gareth yn aelodau ffyddlon a gweithgar yn eglwys Nasareth. Bu Gareth yn flaenor cydwybodol, gan wasanaethu fel Ysgrifennydd yr Eglwys am bron i 60 mlynedd a bu Dilys ar hyd yr amser yn gefn mawr iddo yn ei waith dros ei Arglwydd. Roedd ei chariad at 'bethau'r tŷ' yn ddirwgnach. Un o'r pethau olaf a wnaeth mewn perthynas â'r Eglwys oedd sicrhau bod y Llyfr Bedydd, oedd yn mynd yn ôl i ddiwedd y 19 ganrif, yn cael ei drosglwyddo i Greirfa'r Cyfundeb.

Ymunodd Dilys â nifer o gymdeithasau yn Nhal-y-bont, ac roedd Merched y Wawr a Chymdeithas yr Henoed yn agos iawn at ei chalon. Heb amheuaeth, gwraig ei milltir sgwâr oedd Dilys hyd nes iddi hi a'i chwaer ddechrau mwynhau mynd dramor ar eu gwyliau. Bu hi ac Enid ar sawl trip i wledydd pellennig gan gynnwys Israel a gwlad Groeg.

Yn anffodus, daeth nifer o stormydd enbyd i'w bywyd. Bu farw Margaret yn 41 oed, yna cafodd Gareth gystudd hir cyn iddo yntau farw yn 2007. Collwyd Linda wedyn y flwyddyn ganlynol. Heb amheuaeth, effeithiodd y colledion hynny'n ddifawr ar Dilys, ond roedd ganddi gymeriad gwydn a chryf. Safodd yn gadarn dan orthymder, ac er gwaethaf yr holl brofedigaethau a ddaeth i'w rhan, daliodd yn ddiysgog yn ei Ffydd.

Treuliodd Dilys ddwy flynedd olaf ei bywyd yng nghartref Llys Hafren, y Trallwng, o fewn cyrraedd i'w chwaer, a chafodd ofal arbennig yno. Bu rhai o aelodau eglwys Nasareth, ynghyd â'i gweinidog, yn ymweld â hi yno o bryd i'w gilydd; byddai'n holi am hynt a helynt pobl Tal-y-bont, a'i chof yn well o lawer na'r rhan fwyaf ohonom.

Cynhaliwyd ei hangladd yn Amlogfa Aberystwyth ar 9 Medi. Gwasanaethwyd gan ei gweinidog, y Parch. Wyn Morris, yn cael ei gynorthwyo gan y Parch. Elwyn Pryse. Estynnir ein cydymdeimlad diffuant â'r teulu yn eu profedigaeth.

Parch. Wyn Morris

Dymuna Enid James a theulu'r ddiweddar Dilys Hughes, Llysawel, Tal-y-bont, ddiolch yn ddiffuant am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth. Diolch am y cardiau a'r galwadau ffôn, a'ch presenoldeb yn Amlogfa Aberystwyth. Derbyniwyd rhoddion er cof tuag at Gartref Preswyl Llys Hafren, Y Trallwng, lle cafodd Dilys bob gofal, a hefyd at Ymchwil Cancr.

Ysgol Llangynfelyn

Croeso

Croesawn dri aelod newydd o staff i Ysgol Llangynfelyn. Mae Miss Siwan Jones wedi dechrau dysgu dosbarth Cyfnod Allweddol 2. Daw'n wreiddiol o Ffostrasol a graddiodd mewn Cerddoriaeth ym Mhrifysgol Bangor cyn gwneud ei Ymarfer Dysgu yno. Gobeithiwn y bydd yn hapus iawn gyda ni. Croeso hefyd i Ms Eleri Watson atom fel cynorthwy-ydd Clwb Brecwast. Mae hi'n byw yn lleol iawn i'r ysgol ac eisoes wedi bod yn weithgar yma. Dechreuodd Miss Janet Lea fel cogyddes ym Mis Medi yn lle Miss May Lauder sydd wedi mynd i goginio yng Nghanolfan Rheidol, adeilad y Cyngor. Croesawn Ellie Ellis-Evans i'r ysgol i ddosbarth y Cyfnod Sylfaen.

Ffarwelio

Bu raid ffarwelio â Miss Caryl Davies ym mis Gorffennaf a dymunwn bob lwc iddi yn ei swydd newydd fel athrawes yn Ysgol Comins Coch. Dymunwn hefyd lwc dda i gyn-ddisgyblion yr ysgol yn yr Ysgolion Uwchradd. Aeth Deri, Anansie, Nansi a Nina i Benglais, a Mairéad ac Isabel Benweddig.



Barbeciw

Cafwyd barbeciw llwyddiannus iawn eto eleni dan ofal y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon. Codwyd dros £500 tuag at offer ac adnoddau i'r ysgol. Yn ogystal â'r stondinau ar byrgysr cafwyd Twmpath Dawns dan ofal Mr Erwyd Howells. Croesawyd athrawon o Ddenmarc, yr Almaen ac Iwerddon i'r noson gan eu bod yn ymweld â'r ysgol fel rhan o brosiect Comenius. Yn ystod eu harhosiad ymwelodd yr athrawon ag ysgolion Bro Siôn Cwilt, Penweddig ac Aberporth a threfnwyd gwahanol weithgareddau iddynt. Fel rhan o'r prosiect gweithiodd yr athrawon gyda staff yr ysgol ar brosiect Technoleg Gwybodaeth. Cawsant groeso cynnes iawn yn Ysgol Llangynfelyn, gyda'r plant yn dangos eu doniau cerddorol ac academiaidd mewn gwasanaeth arbennig. Gwisgodd pawb mewn gwisgoedd Cymreig a chafwyd te hyfryd gyda bara brith a phice bach. Cyflwynwyd rhoddion o gopiâu o stori Taliesin, 'Gwion a'r Wrach', i'r athrawon ar ran plant Ysgol Llangynfelyn.

Adeilad y Cynulliad

Ymunodd Jac a Ffion, ein disgyblion hynaf, â disgyblion Blyneddodd 5 a 6 Ysgolion Tal-y-bont a Chraig yr Wylfa mewn ymweliad ag adeilad y Cynulliad yn Aberystwyth. Bydd plant o'r tair ysgol yn gweithio ar brosiect ar y cyd, a dyma ran gyntaf y prosiect.

Prynhawn Campau'r Ddraig

Bu plant Cyfnod Allweddol 2 yn Ysgol Tal-y-bont i gymryd rhan mewn sesiynau Campau'r Ddraig. Cafwyd cyfle i chwarae amryw o chwaraeon yng ngofal Bryn Evans, cydlynnydd Ceredigion.



Cystadleuaeth 5-bob-ochr pêl-droed yr Urdd

Aeth tîm o'r ysgol i gystadleuaeth pêl-droed 5-bob-ochr yr Urdd i ysgolion o dan 50 o blant yng Nghanolfan Hamdden Plasrugg. Buont yn cystadlu'n frwd iawn gan ddod yn 3ydd allan o 8 ysgol. Longyfarchiadau mawr iddynt ar eu llwyddiant.



Prynhawn Coffi Macmillan

Aeth Dosbarth y Cyfnod Sylfaen, Miss Foulkes a Mrs Nemes i'r Llanfach i fwynhau cacen a diod i gefnogi Apêl Macmillan. Mwynhaodd y plant flasur cacennau hyfryd a rhoddwyd cyfraniad tuag at yr elusen.



Cystadleuaeth Clwb Celf Taliesin

Eleni eto, bu plant yr ysgol yn cymryd rhan yng nghystadleuaeth Clwb Celf Taliesin yn Llanfach. Thema plant Cyfnod Allweddol 2 oedd 'Ni'n Hunain' a buont yn creu portreadau ohonynt eu hunain mewn pensil. Bu plant y Cyfnod Sylfaen yn peintio elfiantod lliwgar tebyg i 'Elfed yr Eliffant'. Beirniadwyd eu gwaith gan aelodau'r Clwb Celf a dyfarnwyd gwobrau cyntaf i Grace Davies ac Asher Wood ac ail i Jasmin Foster-Leslie a Catrin Jones. Cyflwynwyd gwobrau hyfryd o lyfrau ac adnoddau celf i'r plant llwyddiannus. Diolchwn yn fawr iawn i Mrs Juliet Regan am drefnu'r cystadleuaeth ac am y gwobrau hael.

Talebau Morrisons a bocsys grawnfwyd brecwast 'Nestlé'

Rydym yn casglu talebau'r archfarchnad Morrisons, 'Let's Grow', eto eleni. Os oes gennych rai yr hoffech gyfrannu i'r ysgol, byddem yn ddiolchgar iawn. Gobeithiwn eu defnyddio i brynu mwy o adnoddau garddio. Rydym hefyd yn casglu tocynnau Nestlé 'Box Tops for Books' sydd i'w cael ar focsys grawnfwyd brecwast.

Clwb Ffermwyr Ifanc Tal-y-bont

Yn ystod mis Medi, priododd Rhydian Evans Tynant ag Eifiona Davies o Dalsarn. Llongyfarchiadau i chi'ch dau a dymuniadau gorau yn eich cartref newydd yng Nglanaber.

Braf oedd cael ailgychwyn calendr y Ffermwyr Ifainc, gyda nifer o aelodau newydd. Cawsom Sosial hwyliog yng nghwmni Derek Tynddraenen ac Ifor yr Esgair.

Yna cynhaliwyd Ras Hwyaidd, gan gychwyn wrth ffald Penpompren a'r linell derfyn wrth y Llew Gwyn. Yr hwyaden gyntaf i groesi'r linell oedd un Lowri Tanllan, gyda Rhian Armstrong o Benparcau yn ail ac Alun Llwynglas yn drydydd. Diolch i bawb fu'n cynorthwyo, yn enwedig y rhai fu yn yr afon – gobeithio bod ffôn symudol Dafydd Tanrallt wedi sychu allan erbyn hyn!

Emyr Lloyd ac Enfys Hatcher ddaeth i'n diddanu ar 1 Hydref, gan sôn am y daith dramor i'r Rali Ewropeaidd yn Slofenia. Da oedd gweld dau aelod ifanc yn achub ar y cyfle i wneud y mwyafr o'r hyn sydd gan y mudiad i'w gynnig; tybed a wnaeth eu hymwelid godi awydd ar rai o aelodau C.F.F.I. Tal-y-bont i fentro allan o Gymru fach?

Ar hyn o bryd mae'r clwb yn brysus yn paratoi ar gyfer Eisteddfod y Sir a gynhelir eleni ym mhaflwyn Pontrhydfendigaid ar Dachwedd 10fed a'r 12fed. Cofiwch ddod i gefnogi!

Geraint Jenkins

Cymdeithas Hela Tal-y-bont



Enoc Jenkins, Cadeirydd Cymdeithas Hela Tal-y-bont, yn cyflwyno rhodd i Mr Ifor Mason i ddiolch am ei wasanaeth fel ysgrifennydd y Gymdeithas ar ôl treulio 36 mlynedd yn y swydd.

Gwasanaeth Tylino Proffesiynol

yng nghysur eich cartref

yn arbenigo mewn tylino corff ac ar gyfer chwaraeon

Am fanylion pellach cysylltwch a Michelle ar y ffon **01654 781314** or **07984 501479**

michellejsymes@btinternet.com

Prisiau cystadleuol a chanolwyr lleol ar gael



Gwasanaeth Gwybodaeth Ceredigion i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd

- Chwilio am ofal plant?
- Eisiau gwybod sut i fod yn ofalwr/wraig plant?
- Chwilio am weithgareddau plant a phobl ifanc?
- Eisiau hysbysebu gweithgareddau plant a phobl ifanc?

Cysylltwch â ni am fanylion pellach

Ffôn/Phone: 01545 574187 E-bost: cis@ceredigion.gov.uk

Gwefan: <http://cis.ceredigion.gov.uk>

Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron, Ceredigion, SA46 0PA



Sam yn serennu

Yn ddiweddar, ymddangosodd Sam Ebenezer, Maes-y-felin, Tal-y-bont, fel un o'r gwsteion ar y rhaglen deledu *Wedi 7*, gyda Paul Griffiths o gwmni *Youth Music Theatre UK*, yn sgil cael ei ddewis i gymryd rhan yn un o gynrychiadau'r cwmni. Llongyfarchiadau iddo ar ei lwyddiant.

Dyma oedd gan Sam i'w ddweud am y profiad:

'Cefais wrandawriad ar gyfer y Theatr ym mis Chwefror ym Manceinion. Roedd y gwrandawriadau'n mynd i 23 o ddinasoedd ac yn cynnwys 1,400 o bobl ifanc rhwng 11 a 21 oed. Dewiswyd 400 ohonom ar gyfer y sioeau, a chefais i gynnig rhan yn y sioe *Korczak* yn y Rose Theatre, Kingston Upon Thames. Stori ddiardynol, wir, am Iddew o wlad Pwyl oedd yn gofalu am blant oedd wedi'u caethiwo mewn cartref i blant amddifad. Chwaraeais i ran Piotr, plentyn o'r cartref, a oedd yn hoffi ymladd. Roedd 40 yn y cast, a 12 o gerddorion. Roedd yn brofiad cwbl arbennig a bythgofiadwy, a chefais gyfle i gwrdd â rhai fydd yn ffrindiau i mi am byth.'

Marchogion yn codi arian i Ffagl Gobaith

Cafodd 21 o aelodau Clwb Ceffylau Cadfarch wledd ddydd Sul 14 Awst pan aethant ar daith farchogaeth i ymweld ag olion hen ddiwydiannau traddodiadol ardal Tal-y-bont – y melinau, y mwynfeydd a'r ffermydd. Buont yn crwydro hefyd yng nghysgod rhai o'r diwydiannau cyfoes, megis Fferm Wynt Mynydd Gorddu. Cafwyd diwrnod difyr a diddorol, gwledd o wybodaeth, a golygfeydd heb eu hail o gefn gwlad a Bae Ceredigion.

Llwyddodd y daith i godi £300 i Ffagl Gobaith, yr elusen leol sy'n rhoi cefnogaeth ymarferol ac emosiynol i rai sy'n dioddef o salwch terfynol neu ddiifrifol, a'u teuluoedd. Mae'r elusen mewn bodolaeth ers 10 mlynedd bellach, a llwyddwyd i gynorthwyo cannoedd lawer o deuluoedd yn ystod y cyfnod hwnnw.

Dymuna trefnwyr y daith ddiolch i'r ffermwyr lleol am eu caniatâd i groesi eu tir, i rai a gyfrannodd yn ariannol, ac i bawb sydd wedi rhoi help llaw i wireddu nod Ceffylau Cadfarch dros y tair blynedd ddiwethaf. Am ragor o wybodaeth, ewch i'n gwefan:

www.cadfarch.co.uk.



We do right by you

Yswiriant, Pensiynau, Buddsoddiadau

Am wasanaeth personol a chyfeillgar, ffroniwch ein swyddfa lleol yn Aberystwyth ar:

01970 612331

www.nfumutual.co.uk/aberystwyth

NFU Mutual is The National Farmers Union Mutual Insurance Society Limited (inc. company). Registered in England. Registered Office: Millers Lane, Stamford LE12 5NF. For security and trading purposes, telephone calls may be recorded and monitored.

Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

Maes-y-deri

Bu misoedd yr haf yn gyfnod prysur i aelodau'r Cyngor Cymuned yn sgil derbyn cais cynllunio i godi 6 uned newydd ym Maes-y-deri. Mewn cyfarfod o'r Is-bwyllgor Cynllunio ar 8 Awst, cytunwyd i gyflwyno nifer o sylwadau i'r Awdurdod Cynllunio ar y cais. Ymhlith y materion oedd yn peri gofid i aelodau'r Cyngor oedd bod y lleoliad yn rhy gyfyng o lawer i ddatblygiad o'r maint, bod dwysedd y datblygiad arfaethedig yn debygol o darfu ar y gymuned glòs a chymdogol sydd wedi esblygu ym Maes-y-deri dros gyfnod o 50 mlynedd, ac nad oedd Tai Ceredigion wedi cynnal arolwg o'r anghenion lleol nac wedi llunio Polisi Tai Lleol cyn cyflwyno'r cais. Yn sgil y gwrthwynebiadau gan y Cyngor a'r trigolion lleol, gorfodwyd y Cyngor Sir i gynnal Cwrdd Safle ar 27 Medi a fynychwyd gan nifer dda o'r cyhoedd a chynrychiolwyr y Cyngor Cymuned. Disgwylir y gwneir penderfyniad ar y cais yn fuan ond yn y cyfamser mae Bwrdd Rheoli Tai Ceredigion wedi mabwysiadu Polisi Tai Lleol ar gyfer y cartrefi newydd ym Maes-y-deri. Yn dilyn gwahoddiad gan y Cyngor Cymuned, bydd Hwylusydd Tai Gwledig Ceredigion yn cynnal arolwg yn fuan i fesur y galw lleol am dai.

Biniau Halen

Ymhlith y materion a drafodwyd yng nghyfarfod mis Medi oedd sut y gallai'r Cyngor Cymuned chwarae rhan i gadw'r cefnffyrdd ar agor mewn tywydd garw. Oherwydd y wasgfa ariannol nid yw'r Cyngor Sir mewn sefyllfa i wario rhagor ar gynnal a chadw, ond mae hawl gan Gynghorau Cymuned i neilltuo peth o'u cyllid i'r pwrpas hwn. Cytunwyd mai'r unig ffordd ymarferol y gallai Cyngor Cymuned bach gwledig gyfrannu at gadw'r ffridd ar agor fyddai trwy ddarparu rhagor o finiau halen mewn mannau strategol. Oherwydd y gost, cytunwyd gohirio dod i benderfyniad ar y mater hyd nes y cynhelir arolwg o'r biniau halen a ddarperir eisoes.

Hysbysfwrdd Cyhoeddus Bont-goch

Adroddwyd fod yr hysbysfwrdd cyhoeddus newydd bellach yn ei le. Neilltuir hanner y gofod ar gyfer cyhoeddiadau'r Cyngor a'r hanner arall ar gyfer cyhoeddi digwyddiadau lleol.

Cronfa Adnewyddu Pentrefi

Adroddwyd fod grant newydd ar gael i Gynghorau Cymuned i wella golwg eu hardaloedd (megis cynlluniau tirlunio, plannu, gwella meinciau cyhoeddus, arwyddion cyhoeddus neu baneli gwybodaeth). Cytunwyd i wahodd Arweinydd y Cynllun i fynychu un o gyfarfodydd y Cyngor i roi cyflwyniad byr.

Cymynrodd Dr Iestyn Watkin

Bydd y Cyngor yn derbyn cymynrodd gwerth £3,000 o Stad y diweddar Dr Iestyn Watkin Morgan, Tŷ Gwyn, Waunfawr, Aberystwyth (Neuaddfach gynt) i ddarparu, trwsio a chynnal un neu ragor o feinciau cyhoeddus rhwng y Patshyn Glas a'r ffordd yn y ffordd ger Neuaddfach. Croesawyd y newyddion gan aelodau'r Cyngor.

Cynllunio

Nodwyd fod y ceisiadau canlynol wedi eu caniatáu: 3 annedd ar safle ger Glas-y-ddôl; estyniad i ffermdy Moelgolomen; paneli solar ar dir Werndeg ac estyniad i 14, Dôl Pistyll. Deallwyd hefyd mai aflwyddiannus oedd yr Apêl yn erbyn penderfyniad yr Awdurdod Cynllunio i godi pedwar tŷ ar bwys Dôl Pistyll.

Ffordd Cwm Ceulan a Ffordd Nant-y-moch

Cytunwyd i dynnu sylw'r Adran Prifffyrdd, Eiddo a Gwaith at nifer o fân broblemau ar y ffridd hyn.

Biniau Baw Cŵn

Cytunwyd i ofyn i'r Cyngor Sir ddarparu biniau baw cŵn ar y ffordd rhwng yr Eglwys a Chae'r Sioe heibio Melin Penpompren.



Yr Ystafell Haearn, Eglwysfach

Derbyniodd cyfeillion yr Ystafell Haearn newyddion da iawn ar 21 Medi pan gyhoeddodd Carl Sargeant AC fod £2.58 miliwn o arian Llywodraeth Cymru wedi'i glustnodi ar gyfer sefydliadau yng Nghymru i'w galluogi i wella'u hadeiladau cymunedol, a derbyniodd yr Ystafell Haearn grant o £105,000 i'r pwrpas hwn.

Rydym yn hynod ddiolchgar am y rhoddion hael a dderbyniwyd oddi wrth gefnogwyr unigol, ac mae ein dyled yn fawr i Ymddiriedolaeth Allchurches, Ymddiriedolaeth Bodfach, cwmni Carillion, y Co-operative, Cronfa Eleri, Gwasanaethau Hawliau'r Anabl, Dulas Cyf, Ymddiriedolaeth Dulverton, Sefydliad Jane Hodge, Ymddiriedolaeth Gwendoline a Margaret Davis, Ymddiriedolaeth Laspen ac Ymddiriedolaeth Oakdale.

Mae'r is-bwyllgor rheoli'n gobeithio y bydd y gwaith yn cychwyn yn y flwyddyn newydd ac yr ailagorir yr adeilad yn haf 2012. Bydd y gwaith yn cynnwys atgyweirio'r metel a'r pren pydredig a darparu lle storio. Bydd yno hefyd faes parcio ar gyfer 5 cerbyd, mynedfa i'r anabl, a gardd. Mae'r grant yn ymddangos yn hael iawn, a chymerir pob gofal i sicrhau y bydd yr adeilad gorffenedig yn rhoi gwerth am arian i'r gymuned o fewn y gyllideb sydd ar gael. Estynnir diolch diffuant i Mrs Joy Neal, Llwyneclyn, Glandyfi am ei holl waith yn cyflwyno ceisiadau am grantiau.

Gofal Traed Aber

Ceiropodydd • Podiatrydd Cofystredig gan yr H.P.C.

- Triniaethau ar ewinedd a chyrn
- Llawdriniaeth ar gasewinedd
- Triniaeth/asesiad arbenigol ar draed diabetig
- Gwadnau ac asesiad biomechanyddol

Triniaeth yn y cartref ar gael

Galwch Shân Jones neu Richard Ellison **01970 617269**
4, Y Porth Bach, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2AR




**Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A
BUSNESAU**

*Gofynnwch am bampffled
rhad ac am ddim*

James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

**CODI Tŷ NEU
ESTYNIAD?**



Iwan Jones, Technegydd Pensaernïol
Gellimanwydd, Talybont, Ceredigion SY24 5HJ
01970 832760

CHWARAEON

Talybont dan 17



Tîm pêl-droed Tal-y-bont dan 17 yn eu cit newydd a noddwyd gan Glyn a Gill Saunders Jones o gwmni cyhoeddi @tebol, yn chwarae yn nhwrnament Gary Pugh a gynhaliwyd yn ddiweddar. Roedd yn ddiwrnod llwyddianus i'r tîm gan iddynt chwarae'n dda a chyrraedd y ffeinal yn erbyn Machynlleth. Ond colli fu eu hanes, o 1 gôl i 0, mewn gêm gyffrous iawn. Pob lwc i'r tîm trwy gydol y tymor.



Caryl ar gefn ei cheffyl

Mae'n debyg mai llond dwrn yn unig o ddarlennwyr *Papur Pawb* sy'n gallu dweud eu bod nhw wedi cynrychioli eu gwlad mewn rhyw gamp neu'i gilydd. Ond ym mis Gorffennaf eleni cafodd Caryl Williams, Penrhos, Tal-y-bont y fraint honno wrth iddi gystadlu fel rhan o dîm 'dressage' Cymru yng nghystadlaethau gwledydd Prydain yn Keysoe, ger Bedford.

Mae Caryl wedi cyrraedd safon uchel iawn yn ei champ. Trwy gystadlu'n gyson a sgorio pwyntiau uchel, llwyddodd i ddringo tabl cynghrair y Gymdeithas 'Dressage' Brydeinig a chael ei dewis i fod yn rhan o'r sgwad cenedlaethol.

A hithau ond yn 18 oed, mae'n hen law ar y busnes marchogaeth erbyn hyn. Cafodd ei cheffyl cyntaf yn anrheg gan ei rhieni ar ei chweched pen-blwydd, a thaniodd hynny ei diddordeb yn y maes. Mynychodd wersi'n wythnosol yng Nghanolan Rheidol dan arweiniad Iola, merch Gwyn a Brina Evans, Tre'r-ddôl, a bu'n cystadlu'n frwd mewn sioeau lleol. Ond y 'dressage' sy'n mynd â'i bryd erbyn hyn.

Mae'r math yma o farchogaeth yn gofyn am safon uchel iawn o ddealltwriaeth a rheolaeth dda dros y cheffyl. Y nod yw dilyn cyfres benodol o symudiadau gosod mewn trefn arbennig, gyda phwyntiau'n cael eu rhoi am berfformiad y cheffyl yn ogystal â'r reidiwr. Derbyn hyfforddiant ac ymarfer y sgiliau yma mae Caryl yn ei wneud wrth fynychu penwythnosau hyfforddi mewn canolfannau yn Sir Fflint a ger

Pont Hafren, lle mae David Broom, y pencampwr enwog, yn berchen ar ganolfan farchogaeth arbennig. Mae reidiwr gosgeiddig cyn bwysiedd â symudiad y cheffyl, gyda'r canolfannau'n darparu hyfforddiant megis Pilates ar gyfer gwella cryfder ac osgo.

Mae arbenigedd ac ymroddiad Caryl wedi arwain at lwyddiant yn arholiadau'r Gymdeithas Geffylau Brydeinig, ac erbyn hyn mae hi'n gweithio ar gampws y Brifysgol yn Lluest ger Aberystwyth yn hyfforddi'r myfyrwyr sy'n dilyn cyrsiau 'equine studies' ac 'equine science'.

Mae Caryl yn cadw Cardi – y cheffyl chwech oed y mae hi wedi'i hyfforddi ar ei liwt ei hun – yn Lluest er mwyn ei hymarfer yn ddyddiol. Bydd Cardi'n cyrraedd ei photensial o ran perfformiad pan fydd hi tua deg oed, felly mae'n debyg bod yna flynyddoedd eto o gystadlu a llwyddiant o flaen y ddwy. Pob lwc i Caryl a Cardi!

Helen a Lois Jones

Gwasanaeth Scania
ARTHUR MORGAN

Pencefen, Y Ferwig, Aberteifi, Ceredigion
01239 615085 – 07721 786292

Salon Leri

Pob agwedd o drin gwallt gan Richard
Pedicure a Manicure
10am-7pm
Llun-Gwener
(01970) 832 674

GOLCHDY LLANBADARN

CYTUNDEB GOLCHI
GWASANAETH GOLCHI
DWFES MAWR
CITS CHWARAEON

GERAINT JAMES
Ffôn: 01970 612459
Mob: 07967235687
Valrosan, Pwllhobi, Llanbadarn Fawr,
Aberystwyth SY23 3SL

